Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol 2021–2022

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol 2021–2022

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | **4** |
| Ein rôl | **7** |
| Ein cofrestr | **11** |
| Beth yw 'addasrwydd i ymarfer'? | **13** |
| Addasrwydd i ymarfer: ein gwaith yn 2021–2022 | **19** |
| Crynodeb ystadegol 2021–2022 | **29** |
| Ffocws ar y dyfodol: 2022–2023 | **45** |



**© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2022**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn nmc.org.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-3592-9

E02769660 07/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Cymdeithion cyfyngedig ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Rhagair

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfrif o'n gwaith yn ymchwilio i bryderon a godwyd gyda ni am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

2021–2022 oedd yr ail flwyddyn i ni i gyd barhau i wynebu heriau'r pandemig coronafeirws. Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, roedd cyfyngiadau terfynol Covid-19 yn cael eu codi ledled y DU ond rydym yn gwybod bod ein gwasanaethau iechyd a gofal yn parhau i fod dan bwysau anhygoel.

Yn ein gwaith addasrwydd i ymarfer yn benodol, parhaodd y pandemig i rwystro ein hymdrechion i fynd i'r afael â llwyth achosion a oedd eisoes yn uchel.

Yn siomedig, ni wnaethom y cynnydd yr oeddem ei eisiau o ran lleihau'r llwyth achosion hwnnw, er i ni lwyddo i'w sefydlogi. Mae'n ddrwg gennym fod hyn wedi ychwanegu at y gofid a'r oedi ychwanegol a brofwyd gan bawb yr effeithiwyd arnynt gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n mynegi pryderon, cyflogwyr neu'r gweithwyr proffesiynol y mae eu gyrfaoedd yn destun craffu. Rydym yn benderfynol o gyflawni newidiadau yn y flwyddyn i ddod, er mwyn lleihau'r amser y mae pobl yn aros am benderfyniad.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar annog gweithwyr proffesiynol cysylltiedig i fyfyrio ac ymgysylltu â ni yn gynnar. Os ydym yn fodlon bod gan weithiwr proffesiynol fewnwelediad a'i fod wedi cryfhau ei ymarfer ers i ddigwyddiad ddigwydd, gallwn fod yn fwy hyderus na fydd yn digwydd eto nac yn peri risg i'r cyhoedd yn y dyfodol. Mae hyn yn ein helpu i ddod ag achosion i ben yn gynt.

Mae mwyafrif llethol y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol; mae llai nag un y cant o'r 758,000 o weithwyr proffesiynol yn profi bod pryderon yn cael eu codi yn eu cylch. Mae'r nifer y byddwn yn eu tynnu oddi ar ein cofrestr yn y pen draw hyd yn oed yn llai, dim ond 109 o bobl yn 2021–2022. Cyhyd â bod gweithwyr proffesiynol yn cadw'n driw i'n Cod ym mhopeth a wnânt, nid oes angen iddynt ofni rheoleiddio.

Rhaid i ni, ar yr un pryd, fod yn ymwybodol bob amser bod rhaid i'r rhai nad ydynt wedi cael gofal diogel neu effeithiol neu sydd â phryderon am gydweithiwr allu codi pryderon gyda ni'n hawdd. Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r wybodaeth a ddarparwn ar-lein, fel y gall pobl ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn cynnig cymorth mwy pwrpasol i bobl sydd angen cymorth ychwanegol i lywio ein prosesau cymhleth, gwaith yr ydym wedi'i arwain gyda rheoleiddwyr eraill.

Yn yr un modd â'n holl waith, rydym wedi ymrwymo i gynyddu cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant yn y ffordd yr ydym yn arfer ein pwerau rheoleiddio.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd penderfyniad a ddeilliodd o'n proses addasrwydd i ymarfer mewn achos yn ymwneud ag ymddygiad hiliol yn ddigon i amddiffyn y cyhoedd. Cawsom ein herio'n gywir gan ein partneriaid i edrych yn ofalus ar yr hyn a ddigwyddodd. Dysgom lawer o'n hadolygiad o'r achos hwnnw a'n galluogodd i wneud gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn gweithio, fel y disgrifiwn yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth a'r her adeiladol a gawn gan ein holl bartneriaid ac i'n cydweithwyr am eu holl waith caled wrth i ni ymdrechu i leihau'r llwyth achosion yn ddiogel a chyflawni gwelliannau sylweddol i'n swyddogaethau addasrwydd i ymarfer i amddiffyn y cyhoedd a hybu hyder yn ein proffesiynau.

**Syr David Warren**
Cadeirydd
8 Gorfennaf 2022

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
8 Gorfennaf 2022

## 01

# Ein **rôl**

**Ni yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.** Mae ein hamcanion wedi'u nodi yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

## Nod trosfwaol y Cyngor yw amddiffyn y cyhoedd drwy:

a. amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd

b. hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Gorchymyn

c. hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau o'r proffesiynau hynny.

## Ein cyfrifoldebau rheoleiddiol yw:

- **cynnal y gofrestr** o nyrsys a bydwragedd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, a chymdeithion nyrsio sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- gosod y **gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n cefnogi pobl i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer mynediad i'n cofrestr, neu anodi arni
- llunio arfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr trwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau** gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes trwy ail-ddilysu
- **ymchwilio ac, os oes angen, gweithredu** pan godir pryderon difrifol am addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Ein corff llywodraethu yw ein Cyngor, sy'n cynnwys chwe pherson lleyg a chwe gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr.

Mae ein gwaith yn cael ei oruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith rheolyddion proffesiynau iechyd a gofal. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig ac yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn darparu budd cyhoeddus.

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 758,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon ynghylch nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn – gan weithredu lle bo angen. Rydym yn credu mewn ystyried y cyd-destun y mae digwyddiadau'n digwydd ynddo a rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gweithio iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag un agwedd ar ein rôl graidd o reoleiddio gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol: ymchwilio i bryderon am eu haddasrwydd i ymarfer. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn esbonio beth rydym yn ei wneud pan ydym yn clywed am bryderon ac rydym yn crynhoi ein perfformiad yn ystod 2021–2022 wrth gyflawni'r rôl hon. Darperir ystadegau i ddangos ein gweithgarwch. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr NMC, sy'n edrych yn ehangach ar ein gwaith.

Mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn.
Maen nhw'n llunio sut rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

## Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth galon ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr tryloyw y gellir ymddiried ynddo.

## Rydym yn garedig

Rydym yn ymddwyn yn garedig ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu dirnadaeth, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.

## Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (o fewn a thu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan ydym yn gweithio'n dda gydag eraill.

## Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio a byddwn bob amser yn ceisio gwneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a wasanaethwn a'n gilydd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag un agwedd ar ein rôl graidd o reoleiddio gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol: ymchwilio i bryderon am eu haddasrwydd i ymarfer. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn esbonio beth rydym yn ei wneud pan ydym yn clywed am bryderon ac rydym yn crynhoi ein perfformiad yn ystod 2021–2022 wrth gyflawni'r rôl hon. Darperir ystadegau i ddangos ein gweithgarwch. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr NMC, sy'n edrych yn ehangach ar ein gwaith.



02

# Ein **cofrestr**

**Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n bodloni ein safonau,** ac mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i'r rhai nad ydynt yn cyrraedd y safonau hynny.

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 758,303 o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr barhaol – cynnydd o 26,403 o fis Mawrth 2021 (ffigur 2020–2021: 731,900). Yn Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer 2020–2021 y llynedd, adroddwyd yn anghywir mai 731,918 oedd y ffigur ar gyfer 2021–2022.

Digwyddodd yr anghywirdeb oherwydd i ni gyfrif nifer fach o gofnodion a gynhyrchwyd i brofi'r system a rhai cofnodion dyblyg o'r adeg pan oedd nyrsys wedi defnyddio cymhwysiad cydymaith nyrsio yn anghywir ac yna wedi ailymgeisio fel nyrs. Mae'r ffigur a adroddir yma yn gywiriad.

## **Ein cofrestr barhaol** gan math o gofrestriad ar 31 Mawrth 2022

| | |
|---|---|
| Bydwragedd | 40,165 |
| Nyrsys | 704,520 |
| Deuol cofrestredig | 6,744 |
| Nyrsio cymdeithion | 6,874 |

Cyfanswm y gofrestr **758,303**

**Niferoedd o weithwyr proffesiynol** yn ôl gwlad neu ranbarth y cofrestriad cychwynnol:

| | |
|---|---|
| Lloegr | 491,030 |
| Gogledd Iwerddon | 21,850 |
| Yr Alban | 72,381 |
| Cymru | 30,599 |

Undeb Ewropeaidd/ Ardal Economaidd Ewropeaidd **28,864**



Y tu allan i'r DU/UE/AEE **113,579**





03

# Beth yw **'addasrwydd i ymarfer"?**

**Mae nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i ymarfer os oes ganddi'r sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad** da i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig i'w chleifion a phobl sydd angen neu sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Mae'r Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio** yn nodi'r safonau yr ydym ni, a'r cyhoedd, yn disgwyl i weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol eu cynnal i fod ar ein cofrestr a chynnal eu cofrestriad yn y DU.

Rhaid i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ar y gofrestr ddangos bob tair blynedd eu bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r safonau yn y Cod: gelwir hyn yn ailddilysu.

Os oes pryderon ynghylch addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer, rydym yn annog pobl i siarad yn gyntaf â'r cyflogwr am eu pryderon i weld a ellir eu datrys ar lefel leol.

Lle na ellir datrys pryderon yn lleol, neu os bydd rhywun yn credu eu bod yn ddigon difrifol i fynnu camau rheoleiddio ar unwaith gennym ni, dylent godi'r pryderon yn uniongyrchol gyda ni. Yna byddwn yn penderfynu a oes angen i ni gymryd camau i amddiffyn y cyhoedd ac ym mhob achos, byddwn yn ceisio dod i ganlyniad cyn gynted â phosibl.

Os byddwn yn canfod bod rhywun sydd wedi'i chofrestru â ni yn peri risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y cyhoedd neu eu cydweithwyr, gallwn gyfyngu ar eu hymarfer neu ddileu eu hawl i weithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

# Sut mae pobl yn codi pryderon gyda ni

Gall unrhyw un ddweud wrthym unrhyw bryd os oes ganddynt bryderon am addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer. Neu, os ydym yn ystyried ei fod yn angenrheidiol, gallwn agor achosion ein hunain.

**Yn nodweddiadol, rydym yn cael pryderon gan:**

- claf neu berson sy'n derbyn gwasanaethau nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- aelod o'r cyhoedd
- cyflogwr neu reolwr y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio
- yr heddlu
- nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn atgyfeirio eu hunain
- rheolyddion iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i godi pryderon **ar ein gwefan.**

# Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried

Dim ond os ydynt yn ymwneud â nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein cofrestr y gallwn ystyried pryderon. Os yw'r pryderon yn ymwneud â gweithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill, byddwn yn eu hatgyfeirio i'r rheoleiddiwr perthnasol neu'r heddlu, os yw'n briodol.

Ein rôl ni yw penderfynu a yw unrhyw bryderon am addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu i amddiffyn y cyhoedd. **Gallwn edrych ar sawl math o bryder, gan gynnwys:**

- camymddwyn (gan gynnwys camymddwyn clinigol)
- diffyg cymhwysedd
- euogfarnau troseddol
- afiechyd difrifol
- heb y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg.

Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion lle mae'n ymddangos bod rhywun wedi cael mynediad i'n cofrestr yn dwyllodrus neu'n anghywir.

# Pryderon am y rhai sydd â chofrestriad dros dro

Cawsom y pŵer i sefydlu cofrestr dros dro i gefnogi'r ymateb cenedlaethol i bandemig Covid-19. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn yn ein **Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020–2021.**

Gan fod cofrestru dros dro yn ôl disgresiwn y Cofrestrydd, nid yw ein prosesau addasrwydd i ymarfer arferol yn berthnasol. Lle codir pryderon am unrhyw un sydd â chofrestriad dros dro, rydym yn cynnal adolygiad ac ymchwiliad sylfaenol ac, os oes angen, yn tynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr dros dro.

**Yn ystod 2021–2022, codwyd saith pryder am bobl ar y gofrestr dros dro (2020–2021: 38).**

- Caewyd un achos ar ôl ei dderbyn gan fod yr unigolyn eisoes wedi gadael y gofrestr dros dro (2020–2021: 11).
- Caniatawyd i un unigolyn aros ar y gofrestr dros dro (2020–2021: saith)
- Tynnwyd tri unigolyn oddi ar y gofrestr dros dro (2020–2021: wyth). Ar gyfartaledd, fe wnaethom gymryd 37 diwrnod i adolygu a gweithredu ar yr achosion hyn (2020–2021: 18 diwrnod).
- 26.4 Mae dau achos yn parhau i gael eu hystyried yn ystod 2022–2023 (2020–2021: tri).

# Sut rydym yn delio â phryderon a godir gyda ni

Pan fydd rhywun yn codi pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer gyda ni (a elwir hefyd yn atgyfeirio), byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach ac yn penderfynu a oes angen unrhyw gamau rheoleiddio. Dyma gam cyntaf ein proses addasrwydd i ymarfer, a elwir yn sgrinio.

**Gall y camau y gallwn eu cymryd i'n helpu i asesu pryderon a phenderfynu a oes angen unrhyw gamau rheoleiddio gynnwys:**

- ystyried y wybodaeth a gawsom i ddeall a fyddai'r pryderon a godwyd yn haeddu camau rheoleiddio
- gofyn am ragor o wybodaeth gan y person a gysylltodd fel ein bod yn deall ei bryderon yn llawn
- gwirio ein cofnodion i weld a oes pryderon wedi'u codi o'r blaen am y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio
- casglu gwybodaeth gan eu cyflogwr
- cymryd datganiadau gan eraill a allai fod wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau a chasglu tystiolaeth arall megis nodiadau, adroddiadau neu gofnodion
- gofyn i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio am eu hymateb i'r pryderon a pha gamau y maent wedi'u cymryd i gryfhau neu newid eu hymarfer ers unrhyw ddigwyddiad.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym yn ymdrin â phryderon **ar ein gwefan.**

# Camau rheoleiddio y gallwn eu cymryd i amddiffyn y cyhoedd

Rydym yn penderfynu a yw'r pryder yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddio gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod. Mae'r penderfyniad hwn yn ystyried y risgiau a allai godi os na fydd y gweithiwr proffesiynol yn mynd i'r afael â'r pryder nac yn unioni'r pryder ac unrhyw gamau sydd eisoes wedi'u cymryd, er enghraifft ailhyfforddiant perthnasol.

Fel yr adroddir yn ddiweddarach, yn y rhan fwyaf o achosion a gawn (78 y cant yn 2021–2022), rydym yn penderfynu nad oes angen cynnal ymchwiliad i'r pryderon a godwyd (caewyd 78 y cant o'r atgyfeiriadau y gwnaethom benderfyniadau yn eu cylch yn 2021–2022).

Fodd bynnag, lle bo angen, gallwn gymryd camau brys, dros dro i amddiffyn y cyhoedd tra byddwn yn ymchwilio i bryderon. **Gwnawn hyn drwy ofyn i banel annibynnol ystyried gwneud gorchymyn interim:**

1. Gorchymyn amodau ymarfer interim, sy'n gosod amodau y mae'n rhaid i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio gydymffurfio â nhw.
2. Gorchymyn atal dros dro interim sy'n atal dros dro gofrestriad y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth am orchmynion interim **ar ein gwefan.**

**Unwaith y byddwn wedi ymchwilio i bryderon yn drylwyr, gall ein harchwilwyr achos:**

- cau'r achos heb unrhyw gamau pellach os nad oes pryderon ynghylch amddiffyn y cyhoedd
- rhoi cyngor i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio i'w hatgoffa o'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid iddynt eu cynnal
- rhoi rhybudd i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio
- cytuno ar ymrwymiadau gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio, sef cyfres o gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i ddychwelyd i ymarfer diogel ac effeithiol
- atgyfeirio'r achos ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod.

I ddarllen mwy am waith ein harchwilwyr achos, **ewch i'n gwefan.**

Mewn achosion mwy difrifol lle rydym o'r farn bod angen gosod sancsiwn i amddiffyn y cyhoedd neu lle nad yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn derbyn bod pryderon ynghylch eu hymarfer, byddwn yn cynnal gwrandawiad neu gyfarfod gerbron panel annibynnol. y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Mae paneli'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr (a elwir yn aelodau cofrestredig) ac aelodau lleyg. Fel arfer, bydd tri aelod o'r panel yn penderfynu ar unrhyw achos gydag o leiaf un aelod lleyg ac un aelod cofrestredig. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y paneli **ar ein gwefan**.

Os nad yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn dadlau am ffeithiau'r achos neu os nad yw am fynychu gwrandawiad, gallwn gynnal cyfarfod i ddod o hyd i ganlyniad y cytunir arno. Cynhelir cyfarfodydd yn breifat. Mae'r panel yn ystyried yn ofalus y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwn ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y mae'r nyrs, y fydwraig, neu'r cydymaith nyrsio yn ei rhoi i ni ymlaen llaw.

Os nad yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn derbyn ffeithiau'r achos, neu os bydd yn gofyn am wrandawiad, neu os nad yw cyfarfod yn cael ei ystyried yn briodol fel arall, byddwn yn cynnal gwrandawiad i ystyried yr achos. Fel arfer cynhelir gwrandawiadau'n gyhoeddus. Yn y gwrandawiad rydym yn esbonio beth yw ein pryderon rheoleiddiol ac yn galw ar dystion i roi tystiolaeth. Gall y nyrs, y fydwraig, neu'r cydymaith nyrsio fod yn bresennol a chael ei chynrychioli. Byddant hwy, neu eu cynrychiolydd, yn esbonio beth yw eu hymateb i'n pryderon ac yn galw ar dystion i roi tystiolaeth. Gall gwrandawiadau fod yn brofiad dirdynnol i'r rhai dan sylw, ond weithiau bydd eu hangen er mwyn datrys gwahaniaethau yn y dystiolaeth rhwng y partïon.

Gallwch ddarllen rhagor am sut rydym yn penderfynu a ddylid anfon achos i  wrandawiad neu gyfarfod **ar ein gwefan.**

**Mewn gwrandawiad neu gyfarfod, gall panel annibynnol wneud un o'r canlynol:**

- cyhoeddi gorchymyn rhybudd am hyd at bum mlynedd
- gosod amodau ymarfer y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy am hyd at dair blynedd
- atal dros dro o'r gofrestr am hyd at flwyddyn
- dileu oddi ar y gofrestr
- cau'r achos heb unrhyw gamau pellach.

Mae rhagor o wybodaeth am y camau y gall ein paneli annibynnol eu cymryd ar gael **ar ein gwefan.**

O bryd i'w gilydd, byddwn yn caniatáu i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio dynnu eu hunain oddi ar ein cofrestr yn wirfoddol heb fod angen gwrandawiad neu gyfarfod os ydym yn fodlon ei fod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Rydym yn darparu nifer y diswyddiadau gwirfoddol ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth am ddiswyddo gwirfoddol **ar ein gwefan.**

## Gwybodaeth gyhoeddus am ein penderfyniadau

Mae gwybodaeth am wrandawiadau sydd i ddod a phenderfyniadau diweddar y panel **ar ein gwefan.**

Pan wneir penderfyniadau rheoleiddiol am addasrwydd rhywun i ymarfer, rydym yn esbonio'r rhesymau i'r person a fynegodd y pryderon i ni ac i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio dan sylw.

- Os byddwn yn penderfynu cymryd camau rheoleiddio i amddiffyn y cyhoedd, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan fel y gall unrhyw un weld y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud a pham.
- Pan yw panel yn gosod gorchymyn interim, rydym yn cyhoeddi'r canlyniad ac yn ei nodi ar gofnod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ar y gofrestr.
- Pan yw archwilwyr achos yn rhoi rhybudd neu'n cytuno ar ymgymeriadau, cyhoeddir esboniad a rhesymau gyda chofnod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ar y gofrestr.
- Pan yw panel yn penderfynu rhoi rhybuddiad, amodau ymarfer, ataliad neu orchymyn dileu o'r gofrestr, rydym yn cyhoeddi rhesymau llawn y panel ac yn nodi'r canlyniad ar gofnod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ar y gofrestr.

Mewn achosion sy'n ymwneud ag iechyd unigolyn neu sydd â gwybodaeth bersonol sensitif arall, rydym yn dal i gyhoeddi gwybodaeth, fel arfer yn llai manwl. Trwy hynny, rydym yn amddiffyn y cyhoedd ac yn parchu preifatrwydd yr unigolyn. Pan ydym yn penderfynu cau achos heb unrhyw gamau pellach, nid ydym fel arfer yn cyhoeddi gwybodaeth oherwydd nad oes rheswm dros wneud hynny i amddiffyn y cyhoedd ac mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu preifatrwydd y rhai dan sylw. Mae rhagor o wybodaeth am ein canllawiau cyhoeddi ar gael **ar ein gwefan.**

Mae ein cofrestr o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio **ar-lein.**

04

# Addasrwydd i ymarfer: **Ein gwaith** yn **2021–2022**

**Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer oedd ein prif flaenoriaeth yn 2021–2022 a bydd yn parhau felly ar gyfer 2022–2023.** Mae'n ddrwg gennym fod gormod o bobl yn gorfod aros yn rhy hir i ni ddod ag achosion i ben, gan y gwyddom y gall oedi effeithio'n sylweddol ar bawb dan sylw. Rydym wedi gwneud rhai gwelliannau, ond mae llawer i'w wneud o hyd.

# Ein cynlluniau i wella

Roedd ein llwyth achosion wedi bod yn tyfu ers dechrau 2019 ac fe'i gwaethygwyd gan y pandemig a effeithiodd yn sylweddol ar ein gweithrediadau. Nid yw'r twf wedi'i achosi gan fwy o bryderon yn cael eu codi gyda ni: mae atgyfeiriadau wedi bod yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ein llwyth achosion ar ddiwedd mis Mawrth 2021 oedd 6,357, cynnydd sylweddol o 4,506 ym mis Mawrth 2020. Yn 2021–2022, fe wnaethom sefydlogi'r twf cyflym ac erbyn Mawrth 2022 roedd llwyth achosion o 6,469. Er gwaethaf y cynnydd hwn, ni chyflawnwyd ein nod o leihau'r llwyth achosion i 5,250 o achosion.

Mae'r adran ddilynol yn crynhoi ein cynnydd yn ôl pedwar nod allweddol ein cynllun gwella.

## Canolbwyntio ar yr achosion y mae angen i ni eu gweld

Mae llawer o bryderon a godir gyda ni naill ai'n ymwneud ag unigolion neu â materion na allwn eu hystyried drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Yn ogystal, rydym yn gwybod bod angen cymorth ar bobl weithiau i nodi eu pryderon yn glir. **I fynd i'r afael â hyn rydym yn:**

- gwneud nifer o newidiadau i'n gwefan fel bod y rhai sy'n ystyried codi pryder yn gallu cael gwybodaeth glir am yr hyn y gallwn ei ystyried a'r mathau o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i ni
- lansio ac wedi parhau i hyrwyddo adnodd i gefnogi cyflogwyr i ymdrin â phryderon ar lefel leol yn hytrach na chodi pryderon gyda n.

Yn gyffredinol, roedd cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau a wnaethpwyd atom yn 2021–2022 yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol.

2021 – 2022
**5,291**
0.70% of 758,303 o'r gofrestr

2020 – 2021
**5,547**
0.76% of 731,900 o'r gofrestr

2019 – 2020
**5,704**
0.80% of 716,593 o'r gofrestr



## Gwneud y penderfyniadau cywir ar yr amser cywir

Ein nod yw gwneud penderfyniadau clir gyda thystiolaeth dda cyn gynted â phosibl er mwyn darparu gwell gwasanaeth i'r rhai dan sylw a lleihau effaith achosion sy'n mynd rhagddynt ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol. **I gefnogi gwneud penderfyniadau cynnar, rydym wedi:**

- cynhyrchu canllawiau sgrinio newydd i symleiddio ein dull o wneud penderfyniadau
- gweithio i wreiddio ein dull o ystyried y cyd-destun fel y gallem ddeall y pryderon a godwyd yn llawnach
- ail-lansio ein hymagwedd at adferiad fel y gallai unigolion ddweud wrthym yn gynnar beth yr oeddent wedi'i wneud i gryfhau eu hymarfer.

Mae ymgysylltiad gweithwyr proffesiynol a'u cynrychiolwyr â'n dulliau newydd yn rhoi darlun llawnach i ni o bryderon ac yn llywio'r penderfyniadau yr oedd angen i ni eu gwneud.

Yn 2021–2022, caewyd 78 y cant o achosion y gwnaethom benderfyniadau yn eu cylch yn ystod cam cyntaf ein proses (sgrinio).

## Gwneud defnydd llawn o adnoddau

**Fe wnaethom gynnydd mewn dau faes allweddol:**

- Rydym wedi gwella ein hallbwn yn raddol yn ystod cam archwiliwr achos y broses oherwydd y gwelliannau i'r broses a'r defnydd cynyddol o adnoddau hyblyg ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Rydym wedi cynyddu'n raddol nifer y digwyddiadau dyfarnu y gallwn eu cynnal bob dydd ac wedi cwblhau mwy o achosion heb fod angen gwrandawiad a ddadleuir yn llawn.

Mae heriau o ran swyddi gwag a chapasiti, gan gynnwys bylchau mewn uwch arweinyddiaeth weithredol, ar gamau cynnar y broses wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i leihau'r llwyth achosion. Mae datrys y materion hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ac yn ystod rhan gyntaf 2022–2023 byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio i rolau allweddol a mynd i'r afael â'n bylchau arweinyddiaeth.

## Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom nifer o newidiadau i'n prosesau ar lefel tîm i ddileu achosion o ddyblygu a gwirio gwaith yn ddiangen. Yn anffodus, roedd hyn wedi arwain at fanteision cyfyngedig. Byddwn yn mabwysiadu dull mwy strwythuredig o adolygu prosesau yn y dyfodol.

## Y darlun llwyth achosion trosfwaol

Mae'r siart uchod yn dangos y gwaith sefydlogi llwyth achosion a gyflawnwyd gennym yn 2021–2022. Ein nod nawr yw lleihau ein llwyth achosion i lai na 5,000 o achosion yn ystod 2022–2023.




## Defnydd parhaus o'n rheolau brys

**Mae newidiadau i'n rheolau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2020 wedi ein galluogi i:**

- cynnal cyfarfodydd panel a gwrandawiadau rhithwir, lle mae pob parti yn ymuno gan ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda
- anfon hysbysiadau o wrandawiad neu gyfarfod drwy e-bost yn hytrach na phost cofnodedig
- ymestyn telerau aelodau'r panel ar eu hail dymor fel ein bod yn parhau i gael cronfa o aelodau panel sydd ar gael yn hawdd heb ymgymryd â recriwtio ychwanegol.

Roedd y rheolau diwygiedig hefyd yn cynnwys y pŵer i gynnal gwrandawiadau gyda phaneli Addasrwydd i Ymarfer o ddau aelod neu heb aelod o'r panel cofrestredig. Nid ydym wedi defnyddio'r pŵer hwn ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i wneud hynny.

Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y pwerau hyn a chytunwyd ym mis Mawrth 2021 i barhau i ddefnyddio'r pwerau a sefydlwyd gan y rheolau ar ôl diwedd cyfnod yr argyfwng. Daeth Deddf Coronafeirws 2020 i ben ar 24 Mawrth 2022 ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi y bydd y cyfnod brys cenedlaethol yn dod i ben ym mis Medi 2022. Yn 2022–2023 byddwn yn adolygu'r defnydd o'n pwerau eto.



## Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Fel rheoleiddiwr a chyflogwr, mae gennym gyfrifoldeb i wneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant. Yn 2021–2022 fe wnaethom gynnydd pellach tuag at gyflawni'r ymrwymiadau hyn. Fe wnaethom gyhoeddi fframwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) wedi'i adnewyddu, datblygu cynlluniau gweithredu manwl, a meithrin gallu mewnol. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am y gwaith hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Nod ein hymchwil Uchelgeisiol ar gyfer Newid yw asesu'r effaith y mae ein prosesau rheoleiddio yn ei chael ar wahanol grwpiau o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae ail gam yr ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall p am mae rhai pobl yn cael eu hatgyfeirio atom yn anghymesur neu'n cael canlyniadau gwahanol o'n prosesau, beth mae hyn yn ei olygu i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw a beth y gallwn ni, ar y cyd ag eraill, ei wneud i fynd i'r afael ag annhegwch. **Yn ystod 2021–2022:**

- Fe wnaethom siarad â gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr i ddeall gwahaniaethau mewn atgyfeiriadau i addasrwydd i ymarfer.
- Dadansoddwyd atgyfeiriadau cyflogwyr i addasrwydd i ymarfer er mwyn deall sut mae atgyfeiriadau'n cymharu â gweithluoedd sefydliadau.

Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau'r gwaith hwn yn ystod haf 2022. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio gyda'n grŵp cynghori allanol i nodi'r camau gweithredu y gallwn ni, ac eraill, eu cymryd i fynd i'r afael ag annhegwch a chryfhau cymorth i weithwyr proffesiynol a chyflogwyr.

Roeddem yn bwriadu comisiynu adolygiad annibynnol o'n hachosion i ddeall pam mae rhai grwpiau'n profi gwahaniaethau o ran pa mor bell y maent yn symud ymlaen drwy ein proses addasrwydd i ymarfer, y canlyniad a gânt, ac a yw ein penderfyniadau'n deg ac yn gyson. Ni allem cael cyflenwr i wneud y gwaith hwn yn 2021–2022 ac rydym yn anelu at gwblhau'r adolygiad hwn yn 2022–2023 yn lle hynny.

Yn 2021, cawsom bryderon sylweddol ynghylch penderfyniad a wnaed gan banel Addasrwydd i Ymarfer. Roedd yr achos yn ymwneud ag ymddygiad gwahaniaethol a hiliol, ac roedd pryder nad oedd yr ataliad chwe mis a osodwyd gan y panel yn ddigonol. Adolygwyd y penderfyniad a phenderfynwyd atgyfeirio'r achos at yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA). Mae'r PSA wedi arfer ei bŵer i apelio i'r Uchel Lys ar y sail efallai na fyddai penderfyniad y panel yn ddigon i amddiffyn y cyhoedd. Roedd y Llys yn cefnogi her y PSA Gan gymeradwyo gorchymyn cydsynio y cytunwyd arno gan yr holl bartïon. Cafodd y nyrs ei thynnu oddi ar y gofrestr.

Fe wnaethom adolygu ein prosesau i nodi dysgu. **O ganlyniad, rydym wedi:**

- cryfhau ein canllawiau addasrwydd i ymarfer fel ein bod yn gyson yn yr hyn a olygwn wrth ddweud gwahaniaethu, bwlio, erledigaeth ac aflonyddu, a pha mor ddifrifol y mae angen cymryd yr honiadau hyn
- darparu hyfforddiant EDI gwell i aelodau paneli Addasrwydd i Ymarfer, a byddwn yn cyflwyno pecyn hyfforddi newydd ar gyfer cydweithwyr addasrwydd i ymarfer yn 2022–2023.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad llawn yn ei gyfarfod agored ym mis Tachwedd 2021 a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Yn 2022–2023, byddwn yn gwerthuso effaith y camau a gymerwyd.

## Cefnogi pobl

Gall ymchwiliadau gael effaith emosiynol ar y rhai dan sylw, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol a'r bobl a'u teuluoedd yr effeithir arnynt gan bryderon a godwyd. Mae amrywiaeth o adnoddau presennol – ein llinell gymorth ar gyfer cymorth emosiynol i'r cyhoedd a Llinell Ofal Addasrwydd i Ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol – yno i ddarparu cymorth a chefnogaeth unigol. Rydym yn annog pobl i ddefnyddio'r rhain os oes angen.

Mae ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus (PSS) yn gwrando ar bobl sy'n mynegi pryderon ac yn eu helpu i ddeall sut y gallwn ymateb. Gall pobl ofyn i'n swyddogion cymorth cyhoeddus am unrhyw beth y maent yn ansicr yn ei gylch. Byddwn hefyd yn cwrdd â nhw'n uniongyrchol os yw'n helpu.

## Cymorth i'r rhai sy'n codi pryderon gyda ni

**Fe wnaethom barhau i ddatblygu ac ehangu ein PSS yn ystod 2021–2022.**

- Estynnodd y tîm PSS ei gymorth i fwy o aelodau o'r cyhoedd a rhoddodd hefyd fwy o gyngor ac arweiniad i gydweithwyr yr NMC, ar bob cam o'r broses addasrwydd i ymarfer.
- Helpodd y PSS gyda mwy na 350 o geisiadau am gymorth i bobl.
- Ehangodd y PSS ei gymorth arbenigol i bobl ag anghenion ychwanegol cymhleth, sydd bellach yn darparu mwy o gymorth gan ddechrau ar gam cyntaf ein proses. Mae'r cymorth yn galluogi pobl i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn ein prosesau.
- Darparodd ein llinell ffôn cymorth emosiynol annibynnol 24 awr gymorth annibynnol, cyfrinachol ac anfeirniadol am ddim ar 218 o achlysuron.
- Lansiwyd gwasanaeth eirioli annibynnol gennym ar y cyd â rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Ei nod yw helpu pobl sydd angen cymorth ychwanegol i lywio ein prosesau a rhyngweithio'n llwyddiannus â ni. Mae pump o bobl wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2021, yn unol â'n disgwyliadau.

Mae **ein gwefan** yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein gwaith i gefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a theuluoedd.

## Cymorth i dystion

Mae rhai tystion wedi dweud wrthym am brofiadau negyddol, gan gynnwys peidio â chael cymorth digonol yn ystod gwrandawiad y buont ynddo. O ganlyniad, rydym wedi gwella ein prosesau, canllawiau, a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr gwrandawiadau ac aelodau paneli i reoli gwahanol senarios yn well, megis y rhai sy'n ymwneud â pherson ag anghenion cymorth penodol. Yn ogystal, gall tystion geisio cymorth emosiynol gan ein llinell ffôn cymorth emosiynol annibynnol.

## Cymorth i gyflogwyr

Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr (ELS) yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i ddarparu cymorth a dysgu wedi'u teilwra ynghylch ein prosesau addasrwydd i ymarfer. **Mae'n gwneud hynny trwy:**

- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyflogwr am hynt achosion y mae wedi'u hatgyfeirio
- defnyddio data atgyfeirio cyflogwyr i gefnogi cyflogwyr i leihau atgyfeiriadau diangen
- darparu rhaglenni dysgu wedi'u teilwra i anghenion. Er enghraifft, rhaglen Materion Mamolaeth sydd newydd ei datblygu sy'n darparu dealltwriaeth fanylach o'r safonau yr ydym yn eu disgwyl gan fydwragedd a sut yr ydym yn ystyried y cyd-destun.
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflogwyr am ddatblygiadau rheoleiddio allweddol. Rydym yn defnyddio eu barn a'u dysgu i ddiweddaru adran cwestiynau cyffredin ein gwefan
- darparu Llinell Gyngor i Gyflogwyr ar gyfer cyngor a chanllawiau arbenigol wrth ystyried gwneud atgyfeiriad atom. Cawsom 744 o alwadau i'n llinell gyngor yn 2021–2022 (1,044 yn 2020–2021). Fe wnaethom gynghori 50 y cant i wneud atgyfeiriad (2020–2021: 52 y cant). Yn gyson â'r llynedd, cynghorwyd 48 y cant ar y pryd i beidio ag atgyfeirio neu reoli'r mater yn lleol. Roedd dau y cant o'r galwadau'n ymwneud â staff nyrs io neu fydwreigiaeth a oedd wedi dod i ben.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cymorth i gyflogwyr ar gael **ar ein gwefan.**

## Cefnogi a diogelu gweithwyr proffesiynol

Mae ein polisi Diogelu ac Amddiffyn Pobl rhag Niwed yn cefnogi cydweithwyr i nodi a rheoli unrhyw bryderon diogelu. Rydym yn darparu canllawiau a hyfforddiant i sicrhau bod cydweithwyr yn gwybod sut i nodi ac ymateb i bryder diogelu.

Mae ein Llinell Gofal Addasrwydd i Ymarfer annibynnol yn cynnig cyngor a chymorth emosiynol ac ymarferol cyfrinachol i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Dewch o hyd i ragor o wybodaeth **yma.**

Mae ein protocol Risg o Hunanladdiad a Hunan-niwed yn rhoi arweiniad i dimau ynghylch beth i'w wneud pan fo unigolion yn ymddangos fel pe baent mewn perygl o hunan-niwed. Rydym yn cofnodi achosion lle rydym yn dod i wybod bod gweithiwr proffesiynol, yn anffodus, wedi lladd ei hun tra bod ein gweithrediadau'n parhau i'n helpu ni i nodi unrhyw ddysgu i wella ein prosesau. Yn 2021–2022, cofnodwyd tri achos (2020–2021: dim achosion; 2019–2020: un enghraifft).

Trwy ddysgu a nodwyd gennym yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyflwyno mesurau manylach ychwanegol i helpu i reoli achosion a chefnogi pobl lle mae risg o hunanladdiad a hunan-niwed. Rydym hefyd wedi datblygu canllaw y gall cydweithwyr ei ddefnyddio i gyfeirio pobl at sefydliadau sy'n darparu cyngor a chymorth ariannol a chyngor a chymorth arall.

# Uned Gwybodaeth Reoleiddiol

Mae'r Uned Gwybodaeth Reoleiddiol (RIU) wedi parhau i ddatblygu ein gallu dadansoddol, gan gynhyrchu ystod o adroddiadau dirnadaeth i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau a chael mewnwelediad i'n prosesau rheoleiddiol. Roedd peth o'r gwaith a wnaed yn 2021–2022 yn cynnwys dadansoddi atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â thaliadau annibynnol personol (PIP), gofal bydwreigiaeth ac atgyfeiriadau gan aelodau'r cyhoedd. Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i wella ein proses addasrwydd i ymarfer.

Fe wnaeth yr RIU hefyd gydweithio â thri phartner i archwilio'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial wrth wneud penderfyniadau rheoleiddiol. Gyda'n gilydd, fel prosiect ymchwil, fe wnaethom ddatblygu meddalwedd a allai nodi ac asesu achosion rheoleiddiol risg isel. I werthuso'r offeryn, defnyddiwyd data hanesyddol. Er bod rhai pryderon ynghylch cywirdeb yr offeryn – gyda rhai achosion risg isel yn cael eu cam-gategoreiddio fel risg uchel – roedd yn gallu rhagweld achosion risg isel gyda chywirdeb o 71 y cant. Cyhoeddodd y Journal of Nursing Regulation y canfyddiadau ym mis Hydref 2021.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein harbenigedd dadansoddol ac ymchwil i amlygu materion neu bryderon sy'n dod i'r amlwg drwy sganio ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau crwneriaid, adroddiadau rheoleiddwyr systemau, ac adborth gan y cyfryngau a chleifion.



# Diogelwch mamolaeth

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd adroddiad terfynol adolygiad Ockenden i fethiannau mewn gofal mamolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford. Drwy gydol yr ymchwiliad, rydym wedi cysylltu'n agos â'r tîm adolygu i sefydlu a oes unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer y gallai fod angen i ni fynd i'r afael â hwy. Rydym wedi ymgysylltu'n barhaus â'r Ymddiriedolaeth i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i atgyfeirio pryderon atom. Yn gyfan gwbl, ers 2014 rydym wedi derbyn 23 o achosion yn gysylltiedig â gwasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford. Mae deunaw wedi dod i ben ac mae pump yn parhau ar agor. Nawr bod adolygiad Ockenden wedi'i gwblhau, rydym yn adolygu ei ganfyddiadau'n ofalus i benderfynu a oes angen rhagor o gamau ynghylch addasrwydd i ymarfer.

Fe fu pryder cynyddol ledled Lloegr ynghylch diogelwch gwasanaethau mamolaeth. Mae ein gwasanaeth cyswllt cyflogwyr wedi ymgysylltu â grwpiau goruchwylio amenedigol rhanbarthol i rannu gwybodaeth a chefnogi gwelliant. Rydym wedi treialu, gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, fersiwn o'r rhaglen Ymddygiad Proffesiynol a Diogelwch Cleifion ar gyfer unedau mamolaeth i gefnogi newid diwylliannol lle bo angen. Rydym yn bwriadu cyflawni hyn l edled y DU yn 2022–2023.

Fe fu cynnydd cyfrannol bach yn nifer yr atgyfeiriadau ynghylch bydwragedd o bump y cant i chwech y cant o gyfanswm yr atgyfeiriadau. O edrych ar batrymau atgyfeirio dros y pum mlynedd diwethaf ar gyfer nyrsys a bydwragedd, mae'n ymddangos bod hyn yn yr ystod arferol. Nid ydym wedi nodi unrhyw duedd benodol yn gysylltiedig ag ef.

# Diwygio rheoleiddiol

Mae diwygio rheoleiddiol yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i newid y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein gwaith. Rydym am ddefnyddio'r cyfle hwn i sefydlu deddfwriaeth fodern, hyblyg sy'n sicrhau y gallwn weithredu'n gyflym ac yn effeithiol bob amser.

Drwy gydol 2021–2022, rydym wedi bod yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid allweddol i nodi sut olwg rydym yn credu y dylai fod ar ein deddfwriaeth. Un o'r prif feysydd ffocws yw addasrwydd i ymarfer.

Drwy ddiwygio rheoleiddio, rydym am gefnogi ymgysylltiad ystyrlon drwy gydol ein prosesau addasrwydd i ymarfer a galluogi penderfyniadau teg cyn gynted â phosibl.

Er mwyn helpu i gyflawni'r ddeddfwriaeth hon, fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mehefin 2021 ac ers hynny rydym wedi gweithio gyda'r Adran i lunio deddfwriaeth ddrafft. Erys rhywfaint o ansicrwydd ynghylch amserlen y Llywodraeth ar gyfer diwygio ein deddfwriaeth, yr ydym yn ceisio'i liniaru drwy ein cynlluniau.



05

# Crynodeb ystadegol 2021–2022

# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Yn 2021–2022, fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar leihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer, a gynyddodd yn nodedig yn ystod 2020–2021 o ganlyniad i'r camau a gymerwyd gennym yn ein hymateb i bandemig Covid-19.

Mae ein nod strategol cyffredinol wedi aros yr un fath: rydym am sicrhau canlyniad sy'n amddiffyn y cyhoedd orau cyn gynted â phosibl ym mhob achos. Rydym yn mesur hyn yn ôl dau ddangosydd perfformiad allweddol. Gyda lefel y llwyth achosion yn uwch na 6,000 ar ddechrau'r flwyddyn, roeddem yn gwybod y byddai lleihau'r llwyth achosion i lefel optimaidd o dan 4,000 yn cymryd amser a rhagwelwyd y byddai'n effeithio ar ein perfformiad DPA yn 2021–2022. Fe wnaethom adrodd yn gyhoeddus ar ddau brif DPA a nodir isod ac ni chyflawnwyd y targedau.

**Gorchmynion interim a osodwyd**

**Ein targed**

Lle bo angen, ein nod yw gosod 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod i dderbyn y pryderon.

**Ein perfformiad**

Fe wnaethom orfodi 77 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod i dderbyn pryderon (2020–2021: 78 y cant).

**Achosion wedi eu terfynu**

**Ein targed**

Ein nod yw cwblhau 80 y cant o'n hachosion o fewn 15 mis i dderbyn pryderon.

**Ein perfformiad**

Fe wnaethom gwblhau 62 y cant o achosion o fewn 15 mis i dderbyn pryderon (2020–2021: 72 y cant).



# Nifer y pryderon

Yn 2021–2022 fe gawsom 5,291 o bryderon newydd, gostyngiad (4.6 y cant) o gymharu â'r llynedd (2020–2021: 5,547). Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir o gofrestr gynyddol, felly mae cyfran y gweithwyr proffesiynol cofrestredig sy'n cael eu hatgyfeirio atom yn llai fyth eleni.

| | 2021–2022 | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y pryderon a dderbyniwyd** | 5,291 | 5,547 | 5,704 |
| **Cyfran y gofrestr** | 0.70% | 0.76% | 0.80% |

# Ffynhonnell pryderon

Mae Tabl 1 yn dangos dadansoddiad o ffynonellau'r pryderon a gawsom yn 2021–2022. Rydym wedi gweld cynnydd o gymharu â'r llynedd yn nifer y pryderon a godwyd gan aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan gyflogwyr yn dal i fod ar duedd ar i lawr. Bydd ein gwaith gwella yn 2022–2023 yn parhau i'n gweld yn ymgysylltu â chyflogwyr i'w cefnogi i benderfynu a ddylid atgyfeirio pryder atom.

**Tabl 1**

**Ffynhonnell y pryderon a atgyfeiriwyd atom**

| | 2021–2022 | | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|---|
| **Pwy a gyfeiriodd pryderon atom** | **Nifer y pryderon newydd** | **Canran y pryderon newydd** | **Nifer y pryderon newydd** | **Canran y pryderon newydd** |
| Claf/y cyhoedd | 2,027 | 38% | 35% | 33% |
| Hunan-atgyfeirio | 353 | 7% | 7% | 8% |
| Cyflogwr | 1,263 | 24% | 25% | 32% |
| Agorwyd gan yr NMC | 194 | 4% | 3% | 4% |
| Aelod cofrestredig arall | 316 | 6% | 5% | 4% |
| Rheoleiddiwr arall | 15 | <1% | 1% | <1% |
| Atgyfeiriwr yn anhysbys | 679 | 13% | 14% | 10% |
| Unrhyw hysbysydd arall | 444 | 8% | 10% | 9% |
| **Cyfanswm** | **5,291** | **100%** | **100%** | **100%** |

# Pryderon lle nad ydym yn nodi nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio

Mewn rhai achosion ni allwn, neu nid ydym yn, adnabod y person sy'n peri pryder fel rhywun sydd ar ein cofrestr. Yn 2021–2022 ni wnaethom fwrw ymlaen â 1,207 o achosion gan na wnaethom nodi nyrs, bydwraig na chydymaith nyrsio. O'r rhai hynny, roedd 909 o achosion yn achosion a gawsom yn 2021–2022.

Pan ydym yn derbyn pryderon newydd, rydym yn defnyddio proses sgrinio tri cham i benderfynu a oes angen ymchwiliad llawn i achos. I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd pan ydym yn derbyn pryder, ewch i **ein gwefan.**

# Pryderon yn ôl gwlad y cyfeiriad cofrestredig

Mae'r diagram dilynol yn ddadansoddiad o wlad y cyfeiriad cofrestredig yn y 3,623 o achosion lle gallem nodi nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio. Mae'r diagram yn cynnwys dadansoddiad pedair gwlad o bryderon newydd, o gymharu â'r cyfrannau o bobl ar y gofrestr sy'n byw yn y gwledydd hynny.

| | Achosion | Canran o gyfanswm y pryderon | Gwlad fel cyfran o'r gofrestr |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 2,856 | 79% | 78% |
| Gogledd Iwerddon | 115 | 3% | 4% |
| Yr Alban | 383 | 11% | 9% |
| Cymru | 207 | 6% | 5% |
| Tramor/UE | 62 | 2% | 4% |

# Pryderon yn ôl math o gofrestriad

Gall unigolyn gofrestru gyda ni fel nyrs neu fydwraig, fel nyrs a bydwraig (a elwir yn gofrestriad deuol) neu fel cydymaith nyrsio.

Mae Tabl 2 yn dangos nifer yr atgyfeiriadau newydd wedi'u dadansoddi yn ôl math o gofrestriad. Ni fu unrhyw newid sylweddol yng nghyfran yr atgyfeiriadau yn ôl math o gofrestriad o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, ac eithrio cynnydd bach yng nghyfran y bydwragedd sy'n cael eu hatgyfeirio o gymharu â 2020–2021. Fel y nodwyd yn flaenorol, o edrych ar y patrymau atgyfeirio ar gyfer nyrsys a bydwragedd dros y pum mlynedd diwethaf, rydym yn ystyried bod y cynnydd hwn o fewn yr ystod arferol.

**Tabl 2**

**Atgyfeiriadau newydd yn ôl math o gofrestriad**

| | 2021–2022 | | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|---|
| Math o gofrestriad | Nifer yr atgyfeiriadau newydd | Canran o gyfanswm yr atgyfeiriadau (canran y gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr) | Canran o gyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran o gyfanswm yr atgyfeiriadau |
| Nyrs | 3,389 | 94% (93%) | 95% | 94% |
| Bydwraig | 212 | 6% (5%) | 5% | 5% |
| Cofrestriad deuol | 4 | <1% (<1%) | <1% | <1% |
| Cydymaith nyrsio | 18 | <1% (<1%) | <1% | <1% |
| **Cyfanswm** | **3,623** | **100%** | **100%** | **100%** |



# Canlyniadau asesiad cychwynnol

Yn 2021–2022, fe wnaethom benderfynu peidio ag ymchwilio i 3,843 o achosion ar ôl asesiad cychwynnol naill ai oherwydd i ni ddod i'r casgliad nad oedd angen gweithredu rheoleiddiol ar gyfer y pryderon, neu oherwydd nad oeddem yn gallu nodi nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein cofrestr fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae hyn yn cyfateb i 78 y cant o ganlyniadau asesiad cychwynnol gan nad oes angen ymchwiliad pellach (cau), sy'n gynnydd nodedig ar gyfraddau dros y tair blynedd diwethaf, gan barhau tuedd ar i fyny. Yn 2020–2021 fe wnaethom benderfynu peidio ag ymchwilio i 68 y cant o atgyfeiriadau ac yn 2019–2020, roedd yn 64 y cant.

Un o nodau ein gwaith gwella i leihau'r llwyth achosion fu gwneud penderfyniadau ar achosion cyn gynted â phosibl ac mae'n ymddangos ein bod yn gwneud cynnydd ar hyn.

Fe wnaethom atgyfeirio 283 o bryderon at gorff rheoleiddio arall.

# Gorchmynion interim

Yn 2021–2022, gosododd ein paneli orchmynion interim i amddiffyn y cyhoedd tra bod ein hymchwiliadau'n mynd rhagddynt mewn 504 o achosion (2020–2021: 549 a 2019–2020: 561). Mae Tabl 3 yn dangos y dadansoddiad rhwng y ddau fath o orchymyn interim. Bu tuedd ar i lawr yn nifer y gorchmynion interim a osodwyd dros y tair blynedd diwethaf.

**Tabl 3**

**Gorchmynion interim a osodwyd**

| | 2021–2022 | | 2020–2021 | | 2019–2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Penderfyniadau gorchymyn interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynion interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynion interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynion interim |
| Amodau ymarfer interim | 264 | 52% | 309 | 56% | 316 | 56% |
| Ataliad interim | 240 | 48% | 240 | 44% | 245 | 44% |
| **Cyfanswm** | **504** | **100%** | **549** | **100%** | **561** | **100%** |

Mae Tabl 4 yn dadansoddi nifer y gorchmynion interim a osodwyd yn ôl math o gofrestriad. Bu cynnydd bach yng nghyfran y nyrsys sy'n cael gorchymyn atal interim o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**Tabl 4**

**Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl math o gofrestriad**

| | 2021–2022 | | | | 2020–2021 | | | | 2019–2020 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Penderfyniadau gorchymyn interim** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Cydymaith nyrsio** | **Deuol** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Cydymaith nyrsio** | **Deuol** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Cydymaith nyrsio** | **Deuol** |
| Amodau ymarfer interim | 249 (52%) | 15 (68%) | 0 | 0 | 293 (56%) | 15 (68%) | 0 | 1 (25%) | 303 (56%) | 13 (57%) | 0 | 0 |
| Ataliad interim | 231 (48%) | 7 (32%) | 0 | 2 (100%) | 230 (44%) | 7 (32%) | 0 | 3 (75%) | 234 (44%) | 10 (43%) | 0 | 1 (100%) |
| **Cyfanswm** | **480** | **22** | **0** | **2** | **523** | **22** | **0** | **4** | **537** | **23** | **0** | **1** |

# Canlyniadau archwilwyr achosion

Yn 2021–2022, fe wnaeth ein harchwilwyr achosion 1,582 o benderfyniadau (2020–2019: 1,083) ar ddiwedd ymchwiliad.

Rydym yn rhoi canllawiau clir i'n penderfynwyr, gan gynnwys archwilwyr achosion, ar yr hyn sy'n ofynnol mewn penderfyniad. Mae'r canllawiau'n helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau'n gyson pan ydym wedi recriwtio mwy o archwilwyr achosion i weithio drwy'r ôl-groniad presennol o achosion.

Mae Tabl 5 yn dadansoddi penderfyniadau'r archwilwyr achosion yn ôl canlyniad. Yn 2021–2022, gostyngodd cyfran yr achosion lle nad oedd camau pellach i'w cymryd o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac rydym wedi gweld mwy o achosion yn cael eu hatgyfeirio i wrandawiad neu gyfarfod. Byddai hyn yn gyson â'r gyfradd cau uwch o achosion ar gam cyntaf ein proses.

**Tabl 5**

**Canlyniadau archwilwyr achosion**

| | 2021–2022 | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|
| **Penderfyniadau archwilwyr achosion** | **Nifer yr achosion** | **Nifer yr achosion** | **Nifer yr achosion** |
| Atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod | 741 (47%) | 435 (40%) | 534 (38%) |
| Cyngor | 14 (<1%) | 9 (<1%) | 7 (<1%) |
| Rhybudd | 65 (4%) | 38 (4%) | 6 (<1%) |
| Ymgymeriad | 23 (1%) | 26 (2%) | 46 (3%) |
| Dim camau pellach | 739 (47%) | 575 (53%) | 812 (58%) |
| **Cyfanswm** | **1,582** | **1,083** | **1,405** |

Mae Tabl 6 yn dadansoddi nifer y penderfyniadau archwilwyr achosion yn ôl math o gofrestriad.

**Tabl 6**

**Nifer y penderfyniadau yn ôl math o gofrestriad**

| | 2021–2022 | | | 2020–2021 | | | 2019–2020 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Penderfyniad yr archwiliwr achos** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Deuol** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Deuol** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Deuol** |
| Atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod | 709 (47%) | 30 (46%) | 2 (67%) | 410 (40%) | 22 (43%) | 3 (43%) | 514 (39%) | 20 (24%) | 0 |
| Cyngor | 14 (<1%) | 0 (0%) | 0 | 9 (<1%) | 0 (0%) | 0 | 5 (<1%) | 2 (2%) | 0 |
| Rhybudd | 63 (4%) | 2 (3%) | 0 | 35 (3%) | 3 (6%) | 0 | 6 (<1%) | 0 | 0 |
| Ymgymeriad | 20 (1%) | 3 (5%) | 0 | 25 (2%) | 1 (2%) | 0 | 41 (3%) | 5 (6%) | 0 |
| Dim camau pellach | 708 (47%) | 30 (46%) | 1 (33%) | 546 (53%) | 25 (49%) | 4 (57%) | 757 (57%) | 55 (67%) | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,514** | **65** | **3** | **1,025** | **51** | **7** | **1,323** | **82** | **0** |

Ni chafwyd unrhyw benderfyniadau gan archwilwyr achosion ar achosion cymdeithion nyrsio ers i rôl y cydymaith nyrsio gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2019.

Mae archwilwyr achosion yn gweithio mewn parau. Mae un yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig ac mae un yn berson lleyg. Os na all yr archwilwyr achosion gytuno ar ganlyniad, rhaid iddynt atgyfeirio'r achos at banel annibynnol o'r Pwyllgor Ymchwilio i gael penderfyniad. Nid oes unrhyw achosion wedi'u hatgyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio yn ystod y tair blynedd diwethaf.

# Canlyniadau gwrandawiad a chyfarfod

Yn 2021–2022, daeth ein paneli at 414 o benderfyniadau terfynol ar achosion (2020–2021: 208 a 2019–2020: 452) drwy gyfarfodydd a gwrandawiadau. Mae Tabl 7 yn dadansoddi penderfyniadau'r panel yn ôl math. Gostyngodd nifer y canlyniadau gwrandawiadau a cyfarfodydd yn ystod 2020–2021, sy'n adlewyrchu'r penderfyniad i oedi gwrandawiadau mewn ymateb i Covid-19. Yn 2021–2022, fe welsom lefelau canlyniadau'n cynyddu, yn unol â'n gwaith adfer llwyth achosion.

Rydym yn parhau i weithio gyda nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a'u cynrychiolwyr i ddatrys mwy o achosion ar gamau cynharach yn y broses addasrwydd i ymarfer. Pan yw archwilwyr achosion yn atgyfeirio achosion ymlaen, ein nod yw datrys yr achos yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Gwnaethpwyd tua 34 y cant o benderfyniadau heb fod angen gwrandawiad a ddadleuir.

**Tabl 7**

**Penderfyniadau panel Panel decisions**

| Penderfyniad y Panel | 2021–2022 Nifer | 2021–2022 Canran | 2020–2021 Nifer | 2020–2021 Canran | 2019–2020 Nifer | 2019–2020 Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dileu | 109 | 26% | 56 | 27% | 127 | 28% |
| Ataliad | 124 | 30% | 86 | 41% | 142 | 32% |
| Amodau ymarfer | 61 | 15% | 27 | 13% | 69 | 15% |
| Rhybuddiad | 37 | 9% | 14 | 7% | 42 | 9% |
| **Is-gyfanswm** | **331** | **80%** | **183** | **88%** | **380** | **84%** |
| Ffeithiau heb eu profi | 22 | 5% | 6 | 3% | 5 | 1% |
| FtP heb ei amharu | 61 | 15% | 19 | 9% | 67 | 15% |
| **Cyfansymiau penderfyniadau panel** | **414** | **100%** | **208** | **100%** | **452** | **100%** |

**Tabl 8**

**Canlyniadau paneli yn ôl math o gofrestriad**

| Penderfyniad y Panel | 2021–2022 Nyrs | 2021–2022 Bydwraig | 2021–2022 Deuol | 2020–2021 Nyrs | 2020–2021 Bydwraig | 2020–2021 Deuol | 2019–2020 Nyrs | 2019–2020 Bydwraig | 2019–2020 Deuol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dileu | 99 (26%) | 7 (30%) | 3 (100%) | 55 (28%) | 1 (9%) | 0 | 123 (29%) | 4 (14%) | 0 |
| Ataliad | 123 (32%) | 1 (4%) | 0 | 80 (41%) | 5 (46%) | 1 (50%) | 132 (31%) | 10 (36%) | 0 |
| Amodau ymarfer | 57 (15%) | 4 (17%) | 0 | 25 (13%) | 2 (18%) | 0 | 62 (15%) | 7 (25%) | 0 |
| Rhybuddiad | 32 (8%) | 5 (22%) | 0 | 14 (7%) | 0 | 0 | 39 (9%) | 3 (11%) | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **311** | **17** | **3** | **174** | **8** | **1** | **356** | **24** | **0** |
| Ffeithiau heb eu profi | 20 (5%) | 2 (9%) | 0 | 6 (3%) | 0 | 0 | 4 (<1%) | 3 (11%) | 0 |
| FtP heb ei amharu | 57 (15%) | 4 (17%) | 0 | 15 (8%) | 3 (27%) | 1 (50%) | 64 (15%) | 1 (3%) | 0 |
| **Cyfansymiau cyffredinol** | **388** | **23** | **3** | **195** | **11** | **2** | **424** | **28** | **0** |

Ers i'r rôl gael ei chyflwyno dair blynedd yn ôl, nid oes unrhyw honiadau yn erbyn cymdeithion nyrsio wedi dod gerbron panel.

# Profwyd yr honiadau yn y dyfarniadad

Mae'r tri chategori uchaf o honiadau a brofwyd wedi aros yr un fath bob blwyddyn ers 2019, er bod y gorchymyn wedi amrywio.

Yn 2021–2022, gofal cleifion oedd y categori mwyaf cyffredin, ac yna rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ac yna cadw cofnodion.

Mae'r tabl isod yn dangos yr honiadau mwyaf cyffredin ym mhob un o'r categorïau hyn. Lefel un yw thema'r categori ac mae lefel dau yn dangos mwy o fanylion.

| Lefel honiad un o gyfanswm (% yr honiadau) | Lefel honiad dau |
|---|---|
| Gofal cleifion (26%) | Diagnosis, arsylwi, asesu.<br>Ymateb amhriodol neu oedi i arwyddion negyddol, dirywiad neu ddigwyddiadau. |
| Rhagnodi a rheoli meddyginiaethau (15%) | Gwallau eraill ynghylch rhoi cyffuriau neu reoli meddyginiaethau.<br>Peidio â rhoi neu wrthod rhoi meddyginiaeth. |
| Cadw cofnodion (14%) | Cofnodion cleifion neu glinigol.<br>Cofnodion cyffuriau neu feddyginiaeth. |

# Cofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr

Mae ein paneli'n ystyried honiadau bod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi'u hychwanegu at y gofrestr yn anghywir neu'n dwyllodrus. Os byddant yn canfod bod yr honiad wedi'i brofi, gall y panel gyfarwyddo'r Cofrestrydd i ddileu neu ddiwygio'r cofnod ar y gofrestr.

Yn 2021–2022, cyfarwyddodd ein paneli y Cofrestrydd i dynnu nyrs neu fydwraig oddi ar y gofrestr mewn 38 o achosion (2020–2021: 17 a 2019–2020: 33).

# Tynnu'n wirfoddol

Ar ôl i achos gael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod, caiff nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wneud cais i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol. Bydd y Cofrestrydd ond yn cymeradwyo ceisiadau pan fo'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn derbyn yr honiadau a'i bod er budd y cyhoedd iddynt gael eu tynnu oddi ar y gofrestr ar unwaith. Os na chaiff y cais ei dderbyn, bydd yr achos yn mynd ymlaen naill ai i wrandawiad neu gyfarfod i'w benderfynu gan banel.

Dengys Tabl 9 nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a ganiatawyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Nid yw'r ffigurau'n cydbwyso yn ystod y flwyddyn oherwydd gwneir rhai penderfyniadau yn y flwyddyn ar ôl i'r cais ddod i law.

**Tabl 9**

**Ceisiadau tynnu'n wirfoddol**

| Tynnu'n wirfoddol | 2021–2022 | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau | 78 | 36 | 50 |
| Ceisiadau a ganiatawyd | 46 | 39 | 31 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 31 | 6 | 20 |

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o benderfyniadau tynnu'n wirfoddol eleni yn ôl math o gofrestriad.

Ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau tynnu'n wirfoddol ynghylch gweithwyr proffesiynol cofrestredig deuol neu gymdeithion nyrsio.

**Tabl 10**

**Penderfyniadau tynnu'n wirfoddol yn ôl math o gofrestriad**

| | 2021–2022 | | 2020–2021 | | 2019–2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tynnu'n wirfoddol | Nyrs | Bydwraig | Nyrs | Bydwraig | Nyrs | Bydwraig |
| Ceisiadau a ganiatawyd | 39 | 7 | 39 | 0 | 30 | 1 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 29 | 2 | 5 | 1 | 19 | 1 |
| **Cyfansymiau** | **68** | **9** | **44** | **1** | **49** | **2** |

# Adolygiadau ac apeliadau

Mae gennym y pŵer i adolygu penderfyniadau'r archwilwyr achosion, gan gynnwys cyngor, rhybuddiadau ac ymgymeriadau, a gall unrhyw un ofyn i ni wneud hynny. .

**Mae dau gam i adolygu penderfyniad.**

1. Rydym yn penderfynu a ddylid cynnal adolygiad.
2. Os byddwn yn cynnal adolygiad, gallwn benderfynu naill ai cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol neu fod angen penderfyniad newydd.

Mae Tabl 11 yn dangos nifer y ceisiadau a gawsom a'r penderfyniadau a wnaethom yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau'n cydbwyso yn ystod y flwyddyn oherwydd ni chwblhawyd rhai adolygiadau yn y flwyddyn y derbyniwyd y ceisiadau. Roedd mwy o geisiadau eleni nag yn y blynyddoedd blaenorol, er bod nifer y penderfyniadau archwilwyr achosion hefyd wedi cynyddu, sy'n cyfateb i 3.3 y cant o benderfyniadau archwilwyr achosion (yn 2020–2021: 3.5 y cant).

Mae dysgu o adolygiadau yn llywio hyfforddiant a gweithgareddau gwella ansawdd eraill ar gyfer archwilwyr achosion ac ymchwilwyr.

**Tabl 11**

**Adolygiadau o benderfyniadau archwilwyr achosion**

| Cam pŵer i adolygu | 2021–2022 | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau am adolygiad a dderbyniwyd | 52 | 38 | 37 |
| Cam cyntaf: cais wedi'i gau | 21 | 17 | 19 |
| Ail gam: angen penderfyniad newydd | 18 | 7 | 17 |
| Ail gam: penderfyniad gwreiddiol wedi'i gadarnhau | 0 | 0 | 2 |

Yn y 18 achos yn 2021–2022 pan benderfynodd y Cofrestrydd fod angen penderfyniad newydd yn 2021–2022, **fe wnaethon nhw roi tri rheswm.**

- Mewn 16 o achosion, roedd diffyg sylweddol yn y penderfyniad gwreiddiol.
- Mewn un achos, daeth gwybodaeth newydd ar gael.
- Mewn un achos, roedd diffyg sylweddol yn y penderfyniad gwreiddiol a daeth gwybodaeth newydd i'r amlwg.

Gall nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio apelio yn erbyn penderfyniad ein paneli. Rhaid iddynt gyflwyno eu hapêl o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad i un o'r dilynol: yr Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon neu'r Llys Sesiwn yn yr Alban. Gall y llys benderfynu bod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau ymestyn y cyfnod amser. Gall y PSA hefyd atgyfeirio achos i'r llys os yw'n ystyried nad yw penderfyniad panel yn amddiffyn y cyhoedd.

Mae Tabl 12 yn dangos cyfanswm nifer yr apeliadau – ni chafodd pob apêl a gyflwynwyd ei chwblhau yn yr un flwyddyn ac mae'r canlyniadau'n cynnwys apeliadau a gyflwynwyd mewn cyfnodau adrodd blaenorol. Mae hyn yn golygu nad yw'r ffigurau'n cydbwyso yn ystod y flwyddyn oherwydd na wnaethpwyd rhai penderfyniadau yn y flwyddyn y cyflwynwyd yr apêl. Defnyddir yr hyn a ddysgir o apeliadau i lywio hyfforddiant ar gyfer aelodau paneli a staff a gweithgareddau eraill ar gyfer gwella ansawdd.

**Tabl 12**

**Canlyniadau apeliadau penderfyniadau paneli**

| Canlyniad | 2021–2022 | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr apeliadau a gyflwynwyd | 13 | 13 | 23 |
| Apêl wedi'i chadarnhau | 7 | 6 | 13 |
| Apêl wedi'i gwrthod | 6 | 13 | 9 |

Mae Tabl 13 yn dangos y dadansoddiad mewn apeliadau penderfyniadau panel eleni yn ôl math o apêl.

**Tabl 13**

**Apeliadau penderfyniadau panel yn ôl math o apêl**

| | PSA | Cofrestrai |
|---|---|---|
| Apêl wedi'i chadarnhau | 6 | 1 |
| Apêl wedi'i gwrthod | 1 | 5 |

# Adfer i'r gofrestr

Gall nyrs neu fydwraig sydd wedi'i dileu o'r gofrestr gan banel wneud cais i gael ei hadfer i'n cofrestr ar ôl pum mlynedd. Cyn y gallant ailymuno â'r gofrestr, rhaid iddynt fodloni panel eu bod yn addas i ymarfer. Os bydd eu cais yn llwyddiannus, fel arfer bydd rhaid iddynt ddilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer.

Mae Tabl 14 yn dangos canlyniadau ceisiadau adfer yn 2021–2022. Nid yw'r ffigurau'n cydbwyso yn ystod y flwyddyn oherwydd bod rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y flwyddyn ar ôl i'r apêl gael ei gwneud. Mae nifer y ceisiadau adfer wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, nid ydym wedi nodi unrhyw dueddiadau sylfaenol.

**Tabl 14**

**Canlyniadau cais am adfer**

| Canlyniad | 2021–2022 | 2020–2021 | 2019–2020 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd | 56 | 72 | 62 |
| Cais wedi'i dderbyn | 21 | 33 | 30 |
| Cais wedi'i wrthod | 21 | 30 | 28 |

Mae Tabl 15 yn dangos dadansoddiad o benderfyniadau adfer eleni yn ôl math o gofrestriad.

**Tabl 15**

**Penderfyniadau adfer yn ôl math o gofrestriad**

| | 2021–2022 cyfanswm | Nyrs | Bydwraig |
|---|---|---|---|
| Cais wedi'i dderbyn | 21 | 20 | 1 |
| Cais wedi'i wrthod | 21 | 20 | 1 |



06

# Ffocws ar y dyfodol: 2022–2023

**Rydym wedi dadansoddi ein perfformiad ar gyfer 2021–2022 i nodi pa feysydd o'n rhaglen wella y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt er mwyn gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau ein llwyth achosion, byrhau ein hamserlenni a chyflawni rheoleiddio sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn.**

Yn 2022–2023 byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y nodau hyn. Yn ogystal â chael buddion pellach o'r newidiadau a wnaethom yn 2021–2022, **byddwn yn:**

expand our decision-making capacity for screening and case examiners. Our recruitment activity to achieve this has either been completed or is advancing

- ehangu ein gallu i wneud penderfyniadau ar gyfer sgrinio ac archwilwyr achosion. Mae ein gweithgarwch recriwtio i gyflawni hyn naill ai wedi'i gwblhau neu'n mynd rhagddo
- ymwreiddio'r newidiadau rydym wedi'u cyflwyno i wella ein heffeithlonrwydd, megis parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod atgyfeiriadau i ni o fewn ein cylch gwaith ac wedi'u mynegi'n dda
- ystyried sut y gall technoleg wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd ymhellach

Trwy'r camau hyn, ein nod yw lleihau'r llwyth achosion i 5,000 o achosion erbyn mis Mawrth 2023.

**Byddwn yn sicrhau bod ein newidiadau'n:**

- sicrhau enillion yn y tymor byr sy'n diwallu ein huchelgais llwyth achosion ar gyfer diwedd mis Mawrth 2023
- cefnogi'r newid i'r model newydd o addasrwydd i ymarfer, a fydd yn cael ei ddarparu drwy ddiwygio rheoleiddio.

Y llinyn cyffredin sy'n rhedeg trwy ein holl waith gwella yw'r ymdrech i ganolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, gyda'r nod o gefnogi pawb sy'n gysylltiedig yn well.

23 Portland Place,
London W1B 1PZ

**T +44 20 7333 9333**

**nmc.org.uk**

© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2022

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).
©NMC 2022–2025

E02769660

978-1-5286-3592-9